# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Hybrid - Digital** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 14 Mawrth 2022** |
| Amser: | **12.30 - 14.10** |

## Cofnodion: SC(6)2022(2)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Rhun ap Iorwerth AS**<br>**Janet Finch-Saunders AS**<br>**Ken Skates AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Laurian Hubbard, Pennaeth Ymgysylltu, Head of Engagement**<br>**Laura Williams, Pennaeth Cyfathrebu, Pennaeth Cyfathrebu**<br>**Mark Neilson, Pennaeth TGCh a Dalledu**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.b Datgan buddiannau

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 31 Ionawr.

## 2 Ystâd y Senedd a ffyrdd o weithio yn y dyfodol

Trafododd y Comisiynwyr y camau nesaf yn dilyn trafodaethau am Strategaeth yr Ystâd ym mis Tachwedd a mis Ionawr. Cydnabuwyd y berthynas gyd-ddibynnol rhwng ffyrdd o weithio a'r amgylchedd gwaith.

Cytunodd y Comisiynwyr i ddwyn ynghyd yn ffurfiol uchelgeisiau'r Comisiwn ar gyfer gweithio ystwyth a gweithio hyblyg, yr adolygiad o gapasiti, a'r gofynion llety mewn un strategaeth Ffyrdd o Weithio a rhaglen gyflawni gysylltiedig. Nodwyd map trywydd lefel uchel Ffyrdd o Weithio a'r broses datblygu achos busnes, fel y'i nodwyd, a chymeradwywyd elfennau cychwynnol y gwaith hwn ar gyfer eu datblygu'n gyflym o dan gynllun gweithredu interim. Trafododd y Comisiynwyr bwysigrwydd sicrhau bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer y materion strategol bwysig hyn yn gadarn, a phwysleisiwyd y pwysigrwydd y maent yn ei roi ar ymgysylltu ac ymgynghori drwy gydol y broses. Wrth wneud hynny, mynegwyd cefnogaeth i weithio gyda phartneriaid i ddeall anghenion pawb sy'n gysylltiedig.

Byddai'r cynlluniau gweithredu'n cynnwys, mewn perthynas â llety ym Mae Caerdydd:

- cyflogi ymgynghorwyr eiddo i roi cyngor penodol,
- drafftio strategaeth bresenoldeb, gan ymdrin â modelau gweithio hybrid,
- cyflogi ein hymgynghorwyr swyddfa i gynnig cyngor pellach ar symud y tu hwnt i'n cynlluniau peilot presennol ar gyfer gweithio hybrid,
- dechrau'r broses ffurfiol o gadarnhau gofynion Llywodraeth Cymru ynghylch ei defnydd o ystâd y Senedd yn y dyfodol a datblygu opsiynau ar gyfer sut i fodloni'r gofynion hynny, ac ysgrifennu at y Bwrdd Taliadau i fynegi diddordeb mewn gweithio'n agos ar faterion sy'n ymwneud â ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

O ran presenoldeb rhanbarthol y Senedd, byddai'r cynlluniau cychwynnol yn cynnwys:

- prosiect i archwilio cynigion ar gyfer hybiau Senedd rhanbarthol yn y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin, gan nodi amseroedd mewn perthynas â swyddfeydd Bae Colwyn, a
- chysylltu'n ffurfiol â Llywodraeth Cymru ynglŷn â defnyddio dull partneriaeth i ddatblygu opsiynau ar gyfer hybiau Senedd rhanbarthol.

Cytunodd y Comisiynwyr hefyd y dylid cynnal adolygiad mewnol ynglŷn â defnyddio adeilad y Pierhead yn y dyfodol.

## 3 Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Gwnaeth y Comisiynwyr drafod a chytuno ar y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Chweched Senedd. Mae'r Strategaeth yn tynnu ar gyflawniadau'r Bumed Senedd a'r cyfleoedd niferus sydd wedi codi yn sgil y pandemig i gynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad.

Trafododd y Comisiynwyr bwysigrwydd cyrraedd y 'lleisiau tawel', a dangos perthnasedd y Senedd i fywydau'r rheini yng Nghymru.

## 4 Y contract arlwyo

Trafododd y Comisiynwyr opsiynau ar gyfer y contract arlwyo, a chytunwyd i ail-dendro am gontract byrrach. Pwysleisiwyd arwyddocâd graddfeydd cyflog cyfartal ar gyfer staff ar gontract â'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan y Comisiwn, a nodwyd y byddai'r hyn a benderfynir yn galluogi gwaith i gael ei wneud fel y byddai opsiynau ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol hefyd yn ystyried awydd y Comisiwn i gefnogi cyfleoedd yng Nghymru.

## 5 Canlyniad yr adolygiad o ddangosyddion perfformiad allweddol

Cytunodd y Comisiynwyr ar newidiadau i'r dangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol, a nodwyd datblygiad mesurau dangosyddion llwyth gwaith ac allbwn mewnol. Cytunwyd i gael data dangosyddion perfformiad allweddol interim sy'n adlewyrchu pwynt chweched mis y flwyddyn.

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch

Cafodd y Comisiynwyr adroddiad cynnydd ar y camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi Aelodau i wneud gwelliannau diogelwch ac ar waith y Tîm Diogelwch i gynyddu ei effeithiolrwydd ymhellach wrth gefnogi Aelodau i gadw'n ddiogel.

Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r wybodaeth gael ei rhannu â'r holl Aelodau fel dechrau proses o sicrhau bod yr Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y materion hyn yn rheolaidd.

## 7 Seiberddiogelwch

Cafodd y Comisiynwyr fanylion am y camau a gymerwyd eisoes i ddiogelu'r Senedd rhag ymosodiadau seiber, ynghyd â'r camau gweithredu sydd yn yr arfaeth neu a awgrymir at y dyfodol er mwyn aros yn barod i ddelio â natur esblygol y bygythiad, sydd wedi dwysáu oherwydd digwyddiadau rhyngwladol diweddar.

Gofynnodd y Comisiynwyr am i friffio uniongyrchol gael ei gynnig i bob un o'r grwpiau plaid.

## 8 Springtide

Cafodd y Comisiynwyr wybodaeth am y trefniadau a fyddai ar waith yn dilyn marwolaeth y Frenhines, gan gynnwys cynlluniau teithio i'r Aelodau bryd hynny.

## 9 Diweddariad ynghylch Covid

Nododd y Comisiynwyr y gwaith sy'n cael ei wneud ar yr asesiad Risg Corfforaethol mewn ymateb i'r newidiadau diweddaraf i'r fframwaith rheoleiddio Covid a'r newidiadau a ragwelir.

Trafodwyd pwysigrwydd parhau i fod yn weddol ofalus ac arwyddocâd y cymorth a roddir i bobl sy'n gweithio ar yr ystâd.

## 10 Papurau i'w nodi:

10.a Diweddariad y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb arferol o benderfyniadau recriwtio a ddarperir i bob cyfarfod o'r Comisiwn.

## 11 Unrhyw fater arall

Yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf, mae'r Comisiynwyr wedi gwneud un penderfyniad ar gynigion i osod plac coffa ar ystâd y Senedd.